

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 11 Chwefror 2019 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL: Un aelod o'r cyhoedd.

75. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

76. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

77. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019 yn gywir.*

78. MATERION YN CODI

Gwahoddodd Gadeirydd y Pwyllgor yr aelod o'r cyhoedd i rannu ei phryderon ynghylch meinciau yn y dref. Gwnaeth gais i'r fainc a fu wrth gyffordd Stryd Clwyd a Stryd Clwyd Uchaf cyn creu cofeb Tom Pryce yno i gael ei hailosod yno, ac i fainc yng Nghae Seren gael ei symud i fod gyferbyn â'r garejys fel nad yw'r sedd yn union o flaen eiddo preswyl. Cytunodd yr aelod i ystyried y ceisiadau.

79. PRISIAU TORRI GLASWELLT 2019

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dau ddyfynbris torri glaswellt yn nhymor 2019. Cynigiwyd y pris a gyflwynwyd gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog, a phleidleisiodd mwyafrif o'r aelodau o blaid hyn.

PENDERFYNWYD: *derbyn pris Llanfwrog CIC ar gyfer torri glaswellt yn 2019 am £3,170.34.*

80. PRISIAU PLANNU PLANHIGION YN Y BASGEDI CROG 2019

Dim ond un cwmni wnaeth ymateb i'r cais am brisiau. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dyfynbris a gyflwynwyd am blannu planhigion yn y basgedi crog yn 2019.

PENDERFYNWYD: *derbyn pris Planhigion Glyndŵr Plants am blannu planhigion yn y basgedi crog yn 2019 am £3,214.80 yn cynnwys TAW.*

81. PRISIAU AM DDYFRIO'R BASGEDI CROG 2019

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dau ddyfynbris am ddyfrio'r basgedi crog yn ystod tymor 2019. Cynigiwyd y pris a gyflwynwyd gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog, a phleidleisiodd mwyafrif yr aelodau o blaid hyn.

PENDERFYNWYD: *derbyn pris Llanfwrog CIC ar gyfer dyfrio'r basgedi crog yn 2019 am £5,990.00.*

82. WICIAU NEWYDD YN Y BASGEDI CROG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried dyfynbris am roi wiciau newydd yng nghynwysyddion y basgedi crog, ac i ystyried p'un ai i brynu stripiau unigol neu rolyn o ddeunydd wic at y diben hwn.

PENDERFYNWYD: *holi a fyddai'r cwmni fu'n llwyddiannus gyda'r pris am blannu'r planhigion yn y basgedi crog yn fodlon cyflawni'r dasg hon, ac i brynu rholyn 50 metr o ddeunydd wic ar gost o £186.00.*

83. ADOLYGU'R GWARIANT AR GOED NADOLIG A GOLEUADAU AR Y COED

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwariant y Cyngor Tref ar goed Nadolig y dref a'r goleuadau ar y coed hynny, o gofio cost gosod a rhoi goleuadau ar bum coeden Nadolig am gyfnod o fis.

Cynigiwyd cael un coeden Nadolig fwy o faint, ansawdd uchel ar y Sgwâr gyda goleuadau wedi'u cyfoethogi fel treial am flwyddyn a hepgor y pedwar lleoliad arall.

PENDERFYNWYD: cael un coeden Nadolig fwy o faint, ansawdd uchel ar y Sgwâr gyda goleuadau wedi'u cyfoethogi fel treial am flwyddyn.

84. GRŴP TREF TACLUS

Cadarnhawyd y byddai sesiwn nesaf y Grŵp ddydd Sadwrn, 23 Chwefror 2019, pan fyddai'r gwirfoddolwyr yn canolbwyntio ar yr ardal rhwng Tesco a Hen Lôn Parcwr.

PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth.*

85. PLANNU COED I DDYNODI LLYWBRAU TROED / CYSYLLTIADAU GWYRDD

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad yn dilyn cyfarfod gyda Ben Wilcox-Jones o Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych. Roeddynt wedi trafod plannu coed o'r un rhywogaeth â'r rhai wrth y fynedfa i Gae Ddôl, gyda'r awgrym o dair coeden wrth Bont y Plant, tair ar Heol y Parc a thair ger yr Orsaf Dân. Roedd cais i'r Cyngor Tref gyfrannu £5,000.00 tuag at y naw coeden. Holodd aelod a fyddai'n bosibl gwneud arbedion maint trwy brynu 12 coeden a phlannu'r tair arall wrth lwybr Rhodfa'r Orsaf. Cytunodd y Cynghorydd Harris i wneud ymholiadau ynghylch hyn.

PENDERFYNWYD: *mewn egwyddor i roi cyfraniad o £5,000.00 tuag at y cynllun plannu coed.*

86. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trafodwyd amseriad y cyfarfodydd Pwyllgor. Gan fod angen cael cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys yn rheolaidd, awgrymwyd bod y gweithgor yn cyfarfod am 6pm, yna'r Pwyllgor Amwynderau am 7pm a'r Pwyllgor Cynllunio am 8pm.

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 11 Chwefror 2019 am 7:00pm.*